| | |
|---|---|
| **Adroddiad At:** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **31 Mai 2012** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwasanaeth: Datblygu Systemau ac Ansawdd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cyngor Blynyddol: Gwasanaethau Cymdeithasol 2011/2012** |

---

## 1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?

1.1 Mae gofyn i bob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru i gynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n crynhoi eu barn ar effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod a blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

1.2 Mae adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwyr ar gyfer 2011/2012 ynghlwm yn Atodiad 1. Bwriad yr adroddiad yw rhoi darlun gonest o wasanaethau yn Sir Ddinbych i'r cyhoedd ac i ddangos dealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r heriau a wynebir.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rhoi ein hunanasesiad o ofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych a blaenoriaethau gwella ar gyfer 2012/2013 i'r Pwyllgor Craffu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu ystyried:

- ein hunanasesiad o ofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych
- blaenoriaethau gwella ar gyfer 2012/2013
- pa un a yw'r adroddiad drafft yn rhoi cyfrif syml a chlir o'r perfformiad fel bod modd i'r cyhoedd ddeall ein cryfderau a meysydd i'w datblygu.

3.2 Bydd yr adroddiad yn ffurfio rhan annatod o werthusiad perfformiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych. Mae'r gwerthusiad hefyd yn hysbysu asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gyngor Sir Ddinbych fel rhan o'r adroddiad gwella blynyddol.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Mae gan Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor (ACRF) bedair cydran :

### ❶ Hunanasesiad a dadansoddiad o effeithiolrwydd

4.2 Mae Datganiad Sefyllfa cynhwysfawr wedi'i ddatblygu i gynnig hunanasesiad manwl o:

- ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau
- gallu'r sefydliad i wella a chynnal y gwelliant.

4.3 Mae'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu set o ddatganiadau canlyniadau i hysbysu'r broses hunanasesu. Mae'r datganiadau canlyniadau yn adlewyrchu siwrnai'r defnyddiwr gwasanaeth a/neu gofalwr trwy'r llwybr gofal ac yna asesiad o'r 'gallu sefydliadol'.

4.4 Mae'r Datganiad Sefyllfa manwl yn cynnwys ein hunanasesiad yn erbyn y datganiadau canlyniadau. Ar gyfer pob datganiad canlyniadau mae dadansoddiad o'n cryfderau a'r heriau sydd wedi helpu i hysbysu ein blaenoriaethau gwella. Mae'r hunanasesiad wedi'i hysbysu gan y "Papur Gwyn" ar ddyfodol Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu) a'r Papur Ymgynghori ar y Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) sy'n gosod agenda trawsnewid sylweddol. Ar gyfer gwasanaethau i oedolion mae'r broses hunanasesu wedi'u hysbysu hefyd gan arolygiad diweddar AGGCC o ofal cymdeithasol i oedolion.

4.5 Bydd y Datganiad Sefyllfa llawn ar gael ar y rhyngrwyd.

### ❷ Llwybr tystiolaeth

4.6 Mae swm sylweddol o dystiolaeth wedi'i gasglu i ddangos y dadansoddiad a'r dyfarniadau sydd wedi'u cynnwys o fewn y Datganiad Sefyllfa. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno i AGGCC a fydd hefyd yn ymweld â Sir Ddinbych i gynnal nifer fechan o ymweliadau arsylwadol i gasglu tystiolaeth bod ein hunanasesiad yn unol â'n harfer gweithredol.

### ❸ Integreiddio gyda chynllunio busnes

4.7 Mae'r blaenoriaethau gwella yr ydym wedi'u hadnabod trwy ein hunanasesiad wedi'u hintegreiddio i'n Cynlluniau Busnes Gwasanaeth. Mae'r ymdriniaeth hon yn sicrhau bod y gwelliannau sy'n cael eu hadnabod yn yr adroddiad blynyddol yn cael eu prif ffrydio i fframwaith rheoli perfformiad yr awdurdod ac yn ffurfio rhan o'r rhaglen herio'r gwasanaeth.

### ❹ Cyhoeddi adroddiad blynyddol

4.8 Yn unol â'r arweiniad sy'n llywodraethu'r broses ACRF mae'r adroddiad blynyddol wedi'i ysgrifennu ar gyfer y cyhoedd ac mae'n tynnu ar y sylwadau,

y dyfyniadau a'r astudiaethau achos sy'n dangos profiad y defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr o'n gwasanaethau. Mae gofyn i ni gyhoeddi'r adroddiad blynyddol erbyn 31 Gorffennaf 2012.

**Negeseuon allweddol a blaenoriaethau o'r broses ACRF**

4.9 Ein hasesiad cyffredinol yw bod Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych yn parhau i berfformio'n dda, gyda gweithlu ymrwymedig iawn sy'n parhau i gyflwyno canlyniadau positif ar gyfer pobl.

4.10 Mae tystiolaeth dda ein bod ni'n:

- ✓ helpu pobl i gael mynediad at yr help y mae ei angen arnynt, pan mae ei angen arnynt
- ✓ cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned
- ✓ cefnogi teuluoedd i ofalu am eu plant yn ddiogel a gostwng y risg o deuluoedd yn methu
- ✓ diogelu plant ac oedolion bregus
- ✓ datblygu gwasanaethau newydd ac arloesol
- ✓ gweithio'n agos gydag awdurdodau eraill ac asiantaethau i gyfuno ein hymdrech
- ✓ cyflwyno gwasanaeth effeithiol, o ansawdd uchel ac wedi'i reoli'n dda

4.11 Mae'r blaenoriaethau gwella sydd wedi'u cynnwys o fewn yr adroddiad blynyddol yn adnabod yr angen i barhau i addasu a datblygu gwasanaethau i ymateb i heriau cymuned sy'n heneiddio a niferoedd cynyddol o blant ac oedolion ag anghenion cymhleth wrth gyflwyno arbedion effeithlonrwydd ar yr un pryd. Mae ein hasesiad hefyd yn adnabod yr angen i gryfhau ein hymdriniaeth tuag at sicrwydd ansawdd i sicrhau bod ein systemau yn adeiladu ar bocedi cyfredol o arfer da er mwyn asesu'n gadarn profiad defnyddwyr gwasanaeth a'r canlyniadau sy'n cael eu cyflwyno.

4.12 Ymhlith nodweddion allweddol ein hymdriniaeth i ailfodelu yn rhagweithiol, a datblygu patrymau gwasanaeth newydd i wella gwasanaethau lleol, y mae:

- rhaglen uchelgeisiol i weddnewid gofal cymdeithasol i oedolion yn Sir Ddinbych gyda ffocws ar hyrwyddo annibyniaeth fel bod gan bobl fwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau
- adlinio ffocws Gwasanaethau i Blant a'r ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno fel rhan o gontinwwm gofal wrth i angen plant a theuluoedd am gymorth ac ymyrraeth newid
- arwain, a chwarae rhan, wrth gydweithio a gweithio mewn partneriaeth proffil uchel ar draws ffiniau

4.13 Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i ni sicrhau ein bod ni yn rheoli newid yn gyson well, gan sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol, ein staff a chymunedau yn cael cyfle i lunio'r ffordd y mae newid yn cael ei symud ymlaen. Rydym yn cydnabod na fydd rhai o'r penderfyniadau yn boblogaidd. Serch hynny, mae'r hinsawdd ariannol yn golygu nad oes modd osgoi penderfyniadau anodd. Bydd ein ffocws ar wneud newidiadau sy'n cyflwyno

gwasanaethau cynaliadwy, cost effeithiol sy'n sicrhau bod pobl fregus yn cael eu diogelu a bod pobl yn derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n cynnig urddas mewn gofal a chanlyniadau da.

4.14 Ni ellir cyflwyno'r agenda hwn ar ei ben ei hun. Mae'r angen ar gyfer gweithio effeithiol ar draws asiantaethau o'r pwys mwyaf i sicrhau ein bod yn cyflwyno gwasanaeth di-dor, cysylltiedig ar gyfer pobl Sir Ddinbych. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer gwasanaethau rhwng Iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gennym berthnasau gwaith positif gyda'n cydweithwyr Iechyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Serch hynny, mae creu un Bwrdd Iechyd ar gyfer Gogledd Cymru gyfan, ar brydiau, wedi golygu nad yw Iechyd bob amser wedi bod mewn sefyllfa i ymateb a chyflwyno peth gwaith partneriaeth ar y cyflymdra y byddem yn dymuno ei weld. Mae hwn yn faes y byddwn yn parhau i weithio trwodd gydag Iechyd yn enwedig wrth i ni ddatblygu ymhellach ar ein hymdriniaeth ardal tuag at wasanaethau i oedolion.

4.15 Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn ganolog i ddatblygu ymdriniaethau integredig tuag at gyflwyno gwasanaeth ar gyfer plant a theuluoedd. Rhaid i ni barhau ar ein gwaith i sefydlu rhyngwyneb priodol gyda'n hasiantaethau partner er mwyn sicrhau ymateb cydweithredol tuag at fodloni angen. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau ymyrraeth ac atal cynnar sy'n tanategu ymateb gwasanaeth wedi’i dargedu ar lefel statudol.

## 5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae gweithgaredd a adnabuwyd o fewn yr adroddiad blynyddol wedi cyfrannu yn uniongyrchol at gyflwyno'r rhaglenni corfforaethol Ymateb i Newid Demograffig ac Adfywio. Dyma rai enghreifftiau:

- ✓ gweithio gyda Gwasanaethau Hamdden i hyrwyddo a datblygu cyfleoedd i bobl hŷn gyfranogi o fewn gweithgareddau corfforol. Ymhlith yr enghreifftiau y mae teithiau cerdded sy'n cael eu tywys, nofio am ddim ac aerobeg dŵr, sesiynau ymarfer o'r gadair yn cael eu darparu i grwpiau cymunedol, o fewn Tai Gofal Ychwanegol ac yn ein canolfannau dydd.
- ✓ gweithredu gwasanaeth Derbyn ac Ail-alluogi a helpodd 2549 o bobl yn 2011/2012
- ✓ cefnogi 425 o bobl hŷn i ddod yn gwsmeriaid Teleofal newydd
- ✓ agor cyfleuster Gofal Ychwanegol pellach yn Rhuthun (Llys Awelon). Dyma'r trydydd cyfleuster Gofal Ychwanegol yn Sir Ddinbych ac mae gwaith ar y gweill ar gyfer pedwerydd cyfleuster yn Ninbych. Mae'r 3 cyfleuster presennol yn cynnig tenantiaethau diogel a chadarn i 139 o bobl hŷn o fewn amgylchedd byw sydd wedi'i gynllunio i gynnal eu hannibyniaeth
- ✓ mapio teuluoedd agored i niwed, y mae llawer ohonynt yn byw o fewn ardaloedd difreintiedig sydd wedi'u cynnwys o fewn ein prosiectau adfywio, a chomisiynu gwasanaethau ymyrraeth gynnar trwy Deuluoedd yn Gyntaf
- ✓ datblygu cyfleoedd hyfforddi, gwirfoddoli a chyflogaeth i 514 o bobl fel rhan o'n prosiect Cysylltiadau Gwaith Newydd.
- ✓ mae mentrau gan ein Tîm Hawliau Lles yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i annibyniaeth, iechyd a lles pobl (a adnabuwyd trwy holiaduron gwerthuso). Y llynedd fe wnaeth ein Partneriaeth Hawliau Lles ddileu £17m mewn dyledion

personol, gan gynhyrchu incwm cynyddol o £8m a symud 1,138 o bobl allan o dlodi.

**6. Faint y bydd yn costio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae'r camau gweithredu sydd wedi'u hadnabod o fewn yr adroddiad wedi'u hanelu at gyflwyno gwelliannau gwasanaeth, gwella canlyniadau a bodloni anghenion lleol yn well o fewn cyd-destun cyflawni arbedion effeithlonrwydd ariannol heriol

**7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal?**

7.1 Cydnabyddir bod yr ymgynghori wedi'i gyfyngu wrth gynhyrchu'r hunanasesiad a'r adroddiad blynyddol. Mae'r adborth sydd wedi'i sicrhau'n uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ynglŷn â'n gwasanaethau fel rhan o'n systemau sicrwydd ansawdd cyfredol wedi'i ddefnyddio i asesu ein perfformiad.

7.2 Rydym wedi tynnu ar ganfyddiadau o arolygiadau positif AGGCC yn 2011/2012 gan gynnwys arolygiad maethu a mabwysiadu, arolygiad o wasanaethau i oedolion, ac arolygiadau o'n Cartrefi preswyl a gwasanaethau a ddarperir yn fewnol.

7.3 Mae'r cyn Aelod Arweiniol dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Aelod Arweiniol dros y Gymraeg, Plant, Pobl Ifanc a Hamdden wedi cael cyfle i gynnig sylwadau ar y ddogfen ddrafft. Mae cynrychiolwyr craffu allweddol o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad blaenorol hefyd wedi cael cyfle i gyfrannu at y broses hunanasesu.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

8.1 Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol yn deillio o'r adroddiad blynyddol, mae'n hanfodol bod unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r camau yn gytûn â chynllun ariannol canol tymor.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w gostwng?**

9.1 Mae cofrestrau risg manwl wedi'u datblygu ar gyfer y Gwasanaeth i Oedolion a Busnesau ac ar gyfer y Gwasanaeth i Blant a Theuluoedd. Gan fod yr ACRF wedi'i brif ffrydio i waith y Gwasanaethau mae'r risgiau a'r camau cysylltiedig i'w lliniaru a'u rheoli yn cael eu casglu yn y gofrestr risgiau.

**10. Y Pŵer i Wneud y Penderfyniad**

10.1 Adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 1999 - dyletswydd Gwerth Gorau i sicrhau gwelliant parhaus.

10.2 Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 1970 - dyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus ar gyflwyno gwasanaeth.

10.3 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 - dyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflwyno gwasanaeth.

10.4 Arweiniad Statudol ar Rôl ac Atebolrwydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a gyhoeddir o dan Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 1970.

10.5 Erthygl 6.3 Cyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Gwasanaeth:  Datblygu Systemau ac Ansawdd
Ffôn:  01824 706641